

# Polisi CCTV

## 1. Nod

Rheoli defnydd o gamerâu cylch cyfyng Ysgol Uwchradd Bodedern.

## 2. Amcanion

- a) Sicrhau diogelwch staff, disgyblion, ymwelwyr a lleihau pryder ac ofn;
- b) Diogelu'r adeilad ac adnoddau'r ysgol;
- c) I helpu adnabod drwgweithredwyr;
- d) Er mwyn cynorthwyo i reoli'r ysgol.

## Datganiad o Fwriad

- Bydd y camerâu yn cydymffurfio â gofynion y Ddeddf Diogelu Data 1998. Bydd yr ysgol yn ymdrin â'r sustem a phob gwybodaeth, dogfennau a delweddau fel data ac felly yn cael eu gwarchod o dan y Ddeddf.
- Nid yw'r camerâu wedi eu ffocysu a'r dai preifat, gerddi nag unrhyw ardal arall o eiddo preifat nac ar doiledau.
- Ni chaniateir defnydd neu wybodaeth o'r camerau at bwrpas masnachol.

Mae arwyddion rhybuddio bod camerâu yn weithredol wedi eu harddangos ger Prif Fynediad i'r ysgol wrth ochr y lôn bost. Yn ogystal â hyn, mae arwyddion i rybuddio'r cyhoedd, staff a'r disgyblion bod camerâu yn yr ysgol.

## Gweithrediad y sustem

- Mae'r ysgol yn cofrestru gyda'r Comisiynydd Gwybodaeth yn flynyddol.
- Rheolwr y Sustem yw Mrs Ann Roberts.
- Rheolwr y Sustem sydd gyda'r hawl i wyllo delweddau byw ac i wyllo delweddau a recordiwyd. Fe wylir y delweddau mewn swyddfa addas.
- Bydd y sustem yn cael ei rheoli gan Reolwr y Safle yn unol â'r Ddeddf. Bydd y Rheolwr Safle yn gyfrifol am waith cynnal a chadw'r sustem.
- Mae'r camerâu yn rhedeg yn fyw ar GYLCH o 5 diwrnod. Pe bai angen ymchwilio i ddigwyddiad, megis difrod, rhaid i hyn ddigwydd o fewn 5 diwrnod.
- Mae'r camerâu yn yr ardaloedd canlynol a pham:

Tu allan – Er mwyn diogelu'r safle a'r cyhoedd

- 1) Tiroedd cefn / tu blaen

Mewnol – Er mwyn diogelu staff, disgyblion, ymwelwyr a'r cyhoedd ac er mwyn diogelu'r adeilad a'r adnoddau a sicrhau ymddygiad gwâr pob amser.

- 1) Prif Dderbynfa yr ysgol
- 2) Prif Rhodfeudd
- 3) Teleganolfan
- 4) Bro Alaw
- 5) Ystafell Gyffredin Bl.12 + 13

- Pe bai cais am recordiad o unrhyw ddigwyddiad ee gan yr Heddlu, llosgir cryno ddisg.

### **Gweithdrefnau Cadw Lluniau ar CD**

- a) Bydd pob CD yn cael ei adnabod drwy rif unigryw.
  - b) Sicrhau bod pob un CD yn 'lân' cyn ei ddefnyddio.
  - c) Bydd pob CD yn cael ei gadw mewn man diogel penodol.
  - ch) Os bydd angen CD ar gyfer trosedd rhaid i hwn gael ei ddiogelu mewn pecyn arbennig a'i selio.
  - d) Cedwir cofnod yn y llyfr log os gofynna'r Heddlu amdano. Rhaid sicrhau bod yr Heddlu yn glir mai YUB sy'n berchen y CD, a dylai'r wybodaeth cael ei drin yn unol â'r Ddeddf.
  - dd) Rhaid cael rhif digwyddiad tor cyfraith gan yr Heddlu.
  - e) Unwaith y dychwelir y CD, rhaid ei distrywio yn syth.
- Mewn unrhyw achos o gamymddygiad yn yr ysgol, mae'r Pennaeth yn gofyn i'r Rheolwr Sustem edrych ar y delweddau ac adrodd yn ôl i'r Pennaeth.

### **Cwynion**

- Unrhyw gwynion - dylid gwneud yn ysgrifenedig i sylw'r Pennaeth. Bydd y rhain yn cael eu trin yn unol â'r Ddeddf.